# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

## RHAN 6

LLOG

### PENNOD 1

LLOG AR SYMIAU SY'N DALADWY I ACC

*F1*...

**160 Dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr: marwolaeth trethdalwr**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) os yw **[**[F1]person—

(i) y mae swm o dreth ddatganoledig i'w godi arno neu gosb sy'n ymwneud â threth ddatganoledig i'w chodi arno, neu

(ii) y mae'n ofynnol iddo dalu swm mewn cysylltiad â chredyd treth,**]**

yn marw cyn y daw'r swm yn daladwy, a

(b) os nad yw'r ysgutor neu'r gweinyddwr yn gallu talu'r swm cyn cael profiant neu lythyrau gweinyddu neu ddogfen arall ag iddi effaith gyfatebol o dan gyfraith gwlad neu diriogaeth heblaw Cymru a Lloegr mewn perthynas ag ystad yr ymadawedig.

(2) Dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr ar gyfer y swm hwnnw yw'r hwyraf o'r canlynol—

(a) y dyddiad a fyddai wedi bod yn ddyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr oni bai am yr adran hon, a

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Adran 160. (See end of Document for details)*

(b) y diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â grant profiant neu lythyrau gweinyddu neu ddogfen arall ag iddi effaith gyfatebol o dan gyfraith gwlad neu diriogaeth heblaw Cymru a Lloegr mewn perthynas ag ystad yr ymadawedig.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn a. 160(1)(a) wedi eu hamnewid (1.4.2018) gan Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Gweinyddu) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/101), rhl. 1(2), **Atod. para. 39**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 160 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 194(2)**

**I2** A. 160 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/33, **ergl. 2(g)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Adran 160.